



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 2244 (Cy.176)

2007 No. 2244 (W.176)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Enseffalopathïau
Sbyngffurf Trosglwyddadwy
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)
2007**

**The Transmissible Spongiform
Encephalopathies (Wales)
(Amendment) (No.2) Regulations
2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007 (O.S. 2007/2043 Cy. 168) ac yn eu hail-wneud gyda diwygiadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1226), sy'n darparu ar gyfer gorfodi, o ran Cymru, Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a chael gwared ar enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L147, 31.5.2001, t.1) fel y'i diwygir gan yr offerynnau Cymunedol a geir yn Atodlen 1 i O.S. 2006/1226 ac fel y'i darllenir gyda hwy.

2. Y diwygiad yw bod Atodlen 6 ddiwygiedig yn cael ei mewnosod yn O.S. 2006/1226.

3. Mae Atodlen 6 i O.S. 2006/1226 ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer gorfodi Atodlen XIA i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 (ynghylch deunydd risg penodedig, cig wedi'i adfer yn fecanyddol a dulliau cigydd).

4. Yn rhinwedd Erthygl 22(1) o Reoliad (EC) 999/2001, roedd y darpariaethau a geid yn Atodiad XIA i'r Rheoliad hwnnw o natur drosiannol hyd nes y mabwysiedid penderfyniad o dan Erthygl 5(2) neu (4) o'r Rheoliad hwnnw sy'n dyfarnu ar statws BSE gwledydd yn unol â'u risg BSE, ac ar ôl hynny byddai

1. These Regulations revoke and remake with amendments the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) (Amendment) Regulations 2007 (S.I. 2007/2043 W. 168). These Regulations amend the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/1226), which provide for the enforcement in relation to Wales of Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies (OJ No. L147, 31.5.2001, p.1) as amended by and as read with the Community instruments set out in Schedule 1 to S.I. 2006/1226.

2. The amendment is that a revised Schedule 6 is inserted into S.I. 2006/1226.

3. Schedule 6 to S.I. 2006/1226 currently provides for the enforcement of Annex XIA to Regulation (EC) No. 999/2001 (concerning specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques).

4. By virtue of Article 22(1) of Regulation (EC) 999/2001, the provisions contained in Annex XIA to that Regulation were of a transitional nature pending the adoption of a Decision under Article 5(2) or (4) of that Regulation determining the BSE status of countries according to their BSE risk, following which

Atodiad V i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 (a gyflwynwyd gan Erthygl 8 o'r Rheoliad hwnnw) yn gymwys o ran deunydd risg penodedig.

5. Mae Penderfyniad bellach wedi ei fabwysiadu o dan Erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 999/2001 (Penderfyniad y Comisiwn 2007/453/EC sy'n sefydlu statws BSE Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd neu ranbarthau ohonynt yn unol â'u risg BSE (OJ Rhif L 172, 30.6.2007, t.84)).

6. Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 722/2007 sy'n diwygio Atodiadau II, V, VI, VIII, IX a XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a chael gwared ar enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L164, 26.6.2007, t.7) wedi diddymu Atodiad XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 ac mae wedi mewnosod Atodiad V diwygiedig ("deunydd risg penodedig") yn y Rheoliad hwnnw.

7. Mae Atodlen 6 ddiwygiedig i O.S. 2006/1226 yn darparu ar gyfer gorfodi Atodiad V diwygiedig yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 722/2007.

8. Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn hwn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.

Annex V to Regulation (EC) No. 999/2001 (introduced by Article 8 thereof) would apply in relation to specified risk material.

5. A Decision has now been adopted under Article 5(2) of Regulation (EC) No. 999/2001 (Commission Decision 2007/453/EC establishing the BSE status of Member States or third countries or regions thereof according to their BSE risk (OJ No. L 172, 30.6.2007, p.84)).

6. Commission Regulation (EC) No. 722/2007 amending Annexes II, V, VI, VIII, IX and XI to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies (OJ No. L164, 26.6.2007, p.7) has repealed Annex XI to Regulation (EC) No. 999/2001 and inserted a revised Annex V ("specified risk material") into that Regulation.

7. The revised Schedule 6 to S.I. 2006/1226 provides for the enforcement of the revised Annex V inserted into Regulation (EC) No. 999/2001 by Commission Regulation (EC) No. 722/2007.

8. A full regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as no impact on the private or voluntary sector is foreseen.

2007 Rhif 2244 (Cy.176)

2007 No. 2244 (W.176)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Enseffalopathïau
Sbyngffurf Trosglwyddadwy
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)
2007**

**The Transmissible Spongiform
Encephalopathies (Wales)
(Amendment) (No.2) Regulations
2007**

Wedi'u gwneud 27 Gorffennaf 2007

Made 27 July 2007

*Wedi eu gosod gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 30 Gorffennaf 2007

*Laid before the National
Assembly for Wales* 30 July 2007

Yn dod i rym 31 Gorffennaf 2007

Coming into force 31 July 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(1).

Mae Gweinidogion Cymru yn cael eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau yn y maes milfeddygol er amddiffyn iechyd y cyhoedd(2).

The Welsh Ministers are designated for the purposes of that section in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health(2).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(3), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau canlynol yn cael eu llunio.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3) there has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations.

(1) 1972 p.68.

(1) 1972 c.68.

(2) O.S. 2003/1246. Yn rhinwedd adran 162 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(2) S.I. 2003/1246. By virtue of section 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers

(3) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran nifer ac enwau Paneli Gwyddonol Parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

(3) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 amending Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council as regards the number and names of the permanent Scientific Panels of the European Food Safety Authority (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2007.

Diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006.

2.-(1) Diwygier Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006(1) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle Atodlen 6 (deunydd risg penodedig, cig wedi'i adfer yn fecanyddol a dulliau cigydda) rhodder yr Atodlen a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Dirymu

3. Mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2007(2) wedi'u dirymu.

Title and Commencement

1. The title of these Regulations is the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) (Amendment) (No.2) Regulations 2007 and they come into force on 31 July 2007.

Amendment of the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006

2.-(1) The Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006(1) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) For Schedule 6 (specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques) there is substituted the Schedule set out in the Schedule to these Regulations.

Revocation

3. The Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) (Amendment) Regulations 2007(2) are revoked.

G. Thomas

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

27 Gorffennaf 2007

27 July 2007

(1) O.S. 2006/1226 Cy. 117

(2) (O.S. 2007/ 2043) Cy. 168

(1) S.I. 2006/1226 (W. 117)

(2) (S.I.2007/2043) (W. 168)

YR ATODLEN

THE SCHEDULE

Rheoliad 2(2)

Regulation 2(2)

YR ATODLEN A RODDIR YN LLE
ATODLEN 6 I REOLIADAU
ENSEFFALOPATHÍAU SBYNGFFURF
TROSLWYDDADWY (CYMRU) 2006

SCHEDULE SUBSTITUTED FOR
SCHEDULE 6 TO THE TRANSMISSIBLE
SPONGIFORM ENCEPHALOPATHIES
(WALES) REGULATIONS 2006

"ATODLEN 6

"SCHEDULE 6

Rheoliad 9

Regulation 9

Deunydd risg penodedig, cig sydd wedi ei wahanu
drwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigyddu

Specified risk material, mechanically separated
meat and slaughtering techniques

CYNNWYS

CONTENTS

1. Penodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel yr awdurdod cymwys
2. Dyletswyddau awdurdodau lleol o ran siopau cigyddion
3. Hyfforddiant
4. Cig sydd wedi ei wahanu drwy ddulliau mecanyddol
5. Pithio
6. Cynaeafu tafodau
7. Cynaeafu cig y pen
8. Tynnu deunydd risg penodedig
9. Anifeiliaid buchol mewn lladd-dy
10. Defaid a geifr mewn lladd-dy
11. Stampiau ŵyn a geifr ifanc
12. Tynnu llinyn asgwrn y cefn o ddefaid a geifr
13. Awdurdodi safleoedd torri gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
14. Awdurdodi a chofrestru siopau cigyddion gan awdurdodau lleol
15. Tynnu deunydd risg penodedig mewn safleoedd torri a awdurdodwyd o dan 13(1)
16. Tynnu asgwrn cefn anifail buchol sy'n ddeunydd risg penodedig ar safle torri nas awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a)
17. Tynnu asgwrn cefn anifail buchol sy'n ddeunydd risg penodedig mewn siop cigydd a awdurdodwyd ac a gofrestrwyd o dan baragraff 14
18. Cig o Aelod-wladwriaeth arall
19. Staenio a gwaredu deunydd risg penodedig
20. Anifeiliaid Cynllun
21. Diogelwch deunydd risg penodedig
22. Gwaharddiad ar gyflenwi deunydd risg penodedig i'w fwyta gan bobl

1. Appointment of the Food Standards Agency as the competent authority
2. Local authorities' duties with regard to butcher shops
3. Training
4. Mechanically separated meat
5. Pithing
6. Tongue harvesting
7. Head meat harvesting
8. Removal of specified risk material
9. Bovine animals in a slaughterhouse
10. Sheep and goats in a slaughterhouse
11. Young lamb and goat stamps
12. Removal of spinal cord from sheep and goats
13. Authorisation of cutting plants by the Food Standards Agency
14. Authorisation and registration of butcher shops by local authorities
15. Removal of specified risk material at a cutting plant authorised under paragraph 13(1)
16. Removal of bovine vertebral column that is specified risk material at a cutting plant not authorised under paragraph 13(1)(a)
17. Removal of bovine vertebral column that is specified risk material at a butcher shop authorised and registered under paragraph 14
18. Meat from another member State
19. Staining and disposal of specified risk material
20. Scheme animals
21. Security of specified risk material
22. Prohibition on the supply of specified risk material for human consumption

Penodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel yr awdurdod cymwys

1.-(1) Heblaw mewn siopau cigyddion mae'n rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd weithredu mewn perthynas â'r Atodlen hon y dyletswyddau sydd ar yr aelod-wladwriaeth ym mhwynt 11.1 a phwynt 11.2 o Atodiad V i Reoliad TSE y Gymuned fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) rhif 722/2007(1) ("Rheoliadau Diwygiedig TSE y Gymuned"), ac mae'n rhaid iddi roi awdurdod at ddibenion pwynt 4.3(a) o'r Atodiad hwnnw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae arolygydd mewn lladd-dy neu safle torri yn -

- (a) filfeddyg swyddogol sydd â chymwysterau yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 i weithredu yn y swyddogaeth honno ac fe'i penodir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- (b) gweithiwr cynorthwyol swyddogol sydd â chymwysterau yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 i weithredu yn y swyddogaeth honno, wedi ei benodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn gweithio o dan awdurdod a chyfrifoldeb milfeddyg swyddogol; neu
- (c) unrhyw berson arall a benodir at y pwrpas gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

(3) Gall penodiad fel arolygydd fod yn gyfyngedig i bwerau a dyletswyddau sydd wedi eu nodi yn y penodiad.

(4) Mae gan unrhyw berson sy'n gweithredu pwerau arolygydd o dan yr Atodlen hon yr amddiffyniad a nodir yn rheoliad 18(3).

Dyletswyddau awdurdodau lleol o ran siopau cigyddion

2. Rhaid i awdurdodau lleol gyflawni dyletswyddau'r Aelod-wladwriaeth ym mhwynt 11.1 a phwynt 11.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned o ran yr Atodlen hon i'r graddau y mae'n ymwneud â thynnu mewn siopau cigyddion y rhannau hynny o asgwrn cefn anifeiliaid buchol, sef y rhannau hynny sy'n ddeunydd risg penodedig, a rhaid iddo roi awdurdodiadau a rhoi effaith i gofrestriadau at ddibenion pwynt 4.3(b) yn y Rhan honno.

Hyfforddiant

3. Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw ladd-dy, safle torri neu siop cigydd lle y mae deunydd risg penodedig yn cael ei dynnu -

- (a) sicrhau bod staff yn cael unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau bod y meddiannydd yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau yn yr Atodlen hon; a

(1) OJ Rhif L164,26.6.2007, t.7.

Appointment of the Food Standards Agency as the competent authority

1.-1) Except in butcher shops, the Food Standards Agency must carry out in relation to this Schedule the duties on the member State in point 11.1 and point 11.2 of Annex V to the Community TSE Regulation as amended by Commission Regulation (EC) No. 722/2007(1) ("the amended Community TSE Regulations") and must grant authorisations for the purposes of point 4.3(a) of that Annex.

(2) For the purposes of this Schedule, within a slaughterhouse or cutting plant an inspector is-

- (a) an official veterinarian who is qualified in accordance with Regulation (EC) No. 854/2004 to act in such a capacity and is appointed by the Food Standards Agency;
- (b) an official auxiliary who is qualified in accordance with Regulation (EC) No. 854/2004 to act in such a capacity, is appointed by the Food Standards Agency and works under the authority and responsibility of an official veterinarian; or
- (c) any other person appointed for the purpose by the Food Standards Agency.

(3) An appointment as an inspector may be limited to powers and duties specified in the appointment.

(4) Any person exercising the powers of an inspector under this Schedule has the protection specified in regulation 18(3).

Local authorities' duties with regards to butcher shops

2. Local authorities must carry out the duties on the member State in point 11.1 and point 11.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation in relation to this Schedule in so far as it relates to the removal in butcher shops of those parts of the vertebral column of bovine animals that are specified risk material and will grant authorisations and effect registrations for the purposes of point 4.3(b) of that Part.

Training

3. The occupier of any slaughterhouse, cutting plant or butcher shop where specified risk material is removed must-

- (a) ensure that staff receive any training necessary to ensure that the occupier complies with his or her duties in this Schedule; and

(1) OJ No. L164, 26.6.2007, p.7.

(b) cadw cofnod am hyfforddiant pob person tra bydd y person yn gweithio yno,

ac mae peidio â gwneud hynny yn dramgwydd.

Cig wedi'i wahanu drwy ddulliau mecanyddol

4.-(1) Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 5 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (mesurau ynghylch cig wedi ei wahanu yn fecanyddol) yn euog o dramgwydd.

(2) Mae unrhyw berson sy'n defnyddio unrhyw gig sydd wedi'i wahanu drwy ddulliau mecanyddol a gynhyrchir yn groes i'r pwynt hwnnw wrth baratoi unrhyw fwyd ar gyfer ei werthu i'w fwyta gan bobl neu unrhyw fwydydd anifeiliaid yn euog o dramgwydd.

(3) Yn y paragraff hwn ystyr "cig wedi'i wahanu drwy ddulliau mecanyddol" yw'r cynnyrch a geir wrth grafu cig oddi ar esgyrn sy'n cynnal cnawd ar ôl tynnu'r esgyrn, gan ddefnyddio dulliau mecanyddol sy'n arwain at golli neu addasu strwythur ffibr y cyhyrau.

Pithio

5. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 6 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (mesurau ynghylch rhwygo'r meinweoedd) yn euog o dramgwydd.

Cynaeafu tafodau

6. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 7 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (cynaeafu tafodau oddi wrth anifeiliaid buchol) yn euog o dramgwydd.

Cynaeafu cig pen

7. Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 8.1 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (cynaeafu cig pen buchol) yn euog o dramgwydd.

Tynnu deunydd risg penodedig

8.-(1) Mae unrhyw berson sy'n tynnu deunydd risg penodedig mewn unrhyw fangre ar wahân i fangre lle y caniateir tynnu'r deunydd risg penodedig hwnnw o dan bwynt 4.1, neu bwynt 4.3(a) neu bwynt 4.3(b) o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned yn euog o dramgwydd.

(2) Yn achos safle torri, mae tynnu'r canlynol yn dramgwydd -

(a)

- (i) unrhyw ran o asgwrn cefn, sydd yn ddeunydd risg penodedig, unrhyw anifail buchol sydd dros 30 mis oed pan gaiff ei gigydda; neu

(b) keep records of each person's training for as long as that person works there,

and failure to do so is an offence.

Mechanically separated meat

4.-1) Any person who fails to comply with point 5 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (measures concerning mechanically separated meat) is guilty of an offence.

(2) Any person who uses any mechanically separated meat produced in contravention of that point in the preparation of any food for sale for human consumption or of any feedingstuff is guilty of an offence.

(3) In this paragraph, "mechanically separated meat" means the product obtained by removing meat from flesh-bearing bones after boning, using mechanical means resulting in the loss or modification of the muscle fibre structure.

Pithing

5. Any person who fails to comply with point 6 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (measures concerning laceration of tissues) is guilty of an offence.

Tongue harvesting

6. Any person who fails to comply with point 7 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (harvesting of tongues from bovine animals) is guilty of an offence.

Head meat harvesting

7. Any person who fails to comply with point 8.1 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (harvesting of bovine head meat) is guilty of an offence.

Removal of specified risk material

8.-1) Any person who removes specified risk material in any premises other than premises in which that specified risk material may be removed under point 4.1, point 4.3(a) or point 4.3(b) of Annex V to the amended Community TSE Regulation is guilty of an offence.

(2) In the case of a cutting plant, it is an offence to remove-

(a) -

- (i) any part of the vertebral column that is specified risk material from any bovine animal aged over 30 months at slaughter; or

- (ii) mewn amgylchiadau pan fo'r cig sy'n cynnwys y deunydd risg penodedig wedi ei ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, unrhyw ran o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig ac sy'n dod o unrhyw anifail buchol sy'n 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda,

onid yw'r safle wedi'i awdurdodi o dan baragraff 13(1)(a); neu

- (b) llinyn asgwrn cefn unrhyw ddafad neu afr sydd dros 12 mis oed pan gaiff ei chigydda neu y mae un neu fwy o'i dannedd blaen parhaol wedi torri drwy gig y dannedd, onid yw'r safle wedi'i awdurdodi at ddiben y cyfryw weithred o dynnu o dan baragraff 13(1)(b).

(3) Yn achos siop cigydd, mae tynnu unrhyw ran o asgwrn cefn anifail buchol, a honno'n rhan sy'n ddeunydd risg penodedig, os nad yw'r siop wedi'i hawdurdodi a'i chofrestru at y diben hwnnw o dan baragraff 14, neu os yw'r cig sy'n cynnwys y deunydd risg penodedig wedi'i ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, yn dramgwydd.

Anifeiliaid buchol mewn lladd-dy

9.-(1) Pan gaiff anifail buchol ei gigydda, mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy dynnu'r holl ddeunydd risg penodedig (ar wahân i'r rhannau hynny o asgwrn y cefn sy'n ddeunydd risg penodedig) cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cigydda ac ym mhob achos cyn yr archwiliad post-mortem.

(2) Mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy draddodi unrhyw gig sy'n cynnwys y rhannau hynny o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol -

- (a) yn achos unrhyw anifail sydd dros 30 mis oed pan gaiff ei gigydda, i safle torri a awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a) neu i Aelod-wladwriaeth arall yn unol â phwynt 10.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned; a
- (b) yn achos unrhyw anifail sydd yn 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda, i safle torri, neu i siop cigydd a awdurdodwyd ac a gofrestrwyd o dan baragraff 14, neu i Aelod-wladwriaeth arall yn unol â phwynt 10.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned.

(3) Rhaid i feddiannydd y lladd-dy nodi cig sy'n cynnwys asgwrn cefn nad yw'n ddeunydd risg penodedig yn unol â phwynt 11.3 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned, a rhaid iddo neu iddi ddarparu gwybodaeth yn unol â phwynt 11.3(b) yn y Rhan honno.

(4) Ni chaniateir i unrhyw berson gynnwys streipen las yn y label y cyfeirir ato yn Erthygl 13 o Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor (EC) Rhif 1760/2000 sydd yn sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru

- (ii) in circumstances where the meat containing the specified risk material has been brought into Wales from another member State, any part of the vertebral column that is specified risk material from any bovine animal aged 30 months or less at slaughter,

unless the plant is authorised under paragraph 13(1)(a); or

- (b) the spinal cord from any sheep or goat aged over 12 months at slaughter or which has a permanent incisor erupted through the gum, unless the plant is authorised for the purpose of such removal under paragraph 13(1)(b).

(3) In the case of a butcher shop, it is an offence to remove any part of the vertebral column that is specified risk material from a bovine animal, if the shop is not authorised and registered for that purpose under paragraph 14, or the meat containing the specified risk material has been brought into Wales from another member State.

Bovine animals in a slaughterhouse

9.-1) When a bovine animal is slaughtered, the occupier of the slaughterhouse must remove all specified risk material (other than those parts of the vertebral column that are specified risk material) as soon as is reasonably practicable after slaughter and in any event before post-mortem inspection.

(2) He or she must consign any meat containing those parts of the vertebral column that are specified risk material as soon as is reasonably practicable-

- (a) in the case of any animal that is aged over 30 months at slaughter, to a cutting plant authorised under paragraph 13(1)(a) or to another Member State in accordance with point 10.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation; and
- (b) in the case of any animal that is aged 30 months or less at slaughter, to a cutting plant, to a butcher shop authorised and registered under paragraph 14 or to another member State in accordance with point 10.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation.

(3) He or she must identify meat containing vertebral column that is not specified risk material in accordance with point 11.3(a) of Annex V to the amended Community TSE Regulation and provide information in accordance with point 11.3(b) of that Part.

(4) No person is permitted to include a blue stripe in the label which is referred to in Article 13 of Regulation (EC) No. 1760/2000 of the European Parliament and of the Council establishing a system for

anifeiliaid buchol ac ar gyfer labelu eidion a chynhyrchion eidion ac sydd yn dirymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97(1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006(2) ac eithrio yn unol â phwynt 11.3(a) o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned.

(5) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

Defaid a geifr mewn lladd-dy

10.-(1) Pan gaiff defaid neu eifr eu cigydda, mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy dynnu'r holl ddeunydd risg penodedig (ar wahân i linyr yr asgwrn cefn) cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cigydda ac ym mhob achos cyn yr archwiliad post-mortem.

(2) Mewn achos dafad neu afr dros 12 mis oed adeg cigydda, neu sydd â blaenddant parhaol wedi torri drwy gig y dannedd, mae'n rhaid i'r meddiannydd cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cigydda -

- (a) dynnu llinyn yr asgwrn cefn yn y lladd-dy cyn yr archwiliad post-mortem;
- (b) anfon y cig i safle torri sydd wedi'i awdurdodi o dan baragraff 13(1)(b), neu
- (c) yn unol â'r paragraff cyntaf o bwynt 10.1 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned anfon y cig i safle torri mewn aelod-wladwriaeth arall cyn belled â bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gwneud cytundeb ysgrifenedig gydag awdurdod cymwys yr aelod-wladwriaeth sy'n ei dderbyn, ac yr anfonir y cig yn unol â'r cytundeb hwnnw.

(3) Yn is-baragraff (2)(c), ystyr "safle torri" ("*cutting plant*") yw mangre -

- (a) a gymeradwywyd neu a gymeradwywyd yn amodol fel mangre o'r fath o dan Erthygl 31(2) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004; neu
- (b) sy'n gweithredu fel mangre o'r fath o dan Erthygl 4(5) o Reoliad (EC) Rhif 835/2004 hyd onis cymeradwyir felly.

(4) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

the identification and registration of bovine animals and regarding the labelling of beef and beef products and repealing Council Regulation (EC) No. 820/97(1) as last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006(2) except in accordance with point 11.3(a) of Annex V to the amended Community TSE Regulation.

(5) Failure to comply with this paragraph is an offence.

Sheep and goats in a slaughterhouse

10.-1) When a sheep or goat is slaughtered, the occupier of a slaughterhouse must remove all specified risk material (other than the spinal cord) as soon as is reasonably practicable after slaughter and in any event before post-mortem inspection.

(2) In the case of a sheep or goat aged over 12 months at slaughter, or which has a permanent incisor erupted through the gum, he or she must as soon as is reasonably practicable after slaughter-

- (a) remove the spinal cord at the slaughterhouse before the post-mortem inspection;
- (b) send the meat to a cutting plant authorised under paragraph 13(1)(b); or
- (c) in accordance with point 10.1 of Annex V to the amended Community TSE Regulation, send the meat to a cutting plant in another member State provided that the Food Standards Agency has entered into a written agreement with the competent authority of the receiving member State, and the dispatch is in accordance with that agreement.

(3) In sub-paragraph (2)(c), "cutting plant" ("*safle torri*") means premises-

- (d) approved or conditionally approved as such under Article 31(2) of Regulation (EC) No. 882/2004 or
- (e) operating as such under Article 4(5) of Regulation (EC) No. 853/2004 pending such approval.

(4) Failure to comply with this paragraph is an offence.

(1) OJ Rhif L 204, 11.8.2000, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan yr Act sy'n ymwneud ag amodau ymaelodi y Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia a'r addasiadau i'r Cytuniadau y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i seilio amynt (OJ Rhif L 236, 23.9.2003, t. 33).

(2) OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.1.

(1) OJ No. L 204, 11.8.2000, p. 1, as last amended by the Act concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded (OJ No. L 236, 23.9.2003, p. 33).

(2) OJ No. L363, 20.12.2006, p.1.

Stampiau ŵyn a geifr ifanc

11.-(1) Gall arolygydd stampio dafad neu afr mewn lladd-dy gyda stamp oen ifanc neu stamp gafr ifanc os nad oes gan yr anifail flaenddant parhaol sydd wedi torri drwy gig y dannedd ac os nad yw'r ddogfennaeth, os oes dogfennaeth o'r fath, sy'n gysylltiedig â'r anifail yn dangos ei fod dros 12 mis oed adeg cigydda.

(2) Mae'n rhaid i'r stamp y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) farcio'r cig gyda chylch 5 centimetr mewn diamedr gyda'r canlynol mewn llythrennau bras 1 centimetr o ran uchder-

- (a) "MHS"; a
- (b) mewn achos defaid, "YL"; neu
- (c) mewn achos gafr, "YG".

(3) Mae'n drosedd i unrhyw berson ar wahân i arolygydd ddefnyddio'r stamp neu farc sy'n debyg i'r stamp, neu iddynt feddu cyfarpar ar gyfer ei ddefnyddio.

(4) Mae'n drosedd marcio dafad neu afr gyda stamp oen ifanc neu stamp gafr ifanc neu stamp sy'n debyg iddynt oni bai ei fod yn anifail y caniatwyd ei farcio yn unol ag is-baragraff(1).

Tynnu llinyn asgwrn y cefn o ddefaid a geifr

12. Mae'n drosedd tynnu llinyn asgwrn y cefn neu unrhyw ran ohono o dafad neu afr sydd dros 12 mis oed adeg eu cigydda neu dafad neu afr oedd ag un neu fwy o flaenddannedd parhaol a oedd wedi torri drwy gig y dannedd (ar wahân i ddibenion archwiliad milfeddygol neu wyddonol) ac eithrio drwy -

- (a) hollti holl asgwrn y cefn yn hydredol; neu
- (b) tynnu darn hydredol o holl asgwrn y cefn gan gynnwys llinyn asgwrn y cefn.

Awdurdodi safleoedd torri gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

13.-(1) Rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd awdurdodi safle torri i dynnu -

- (a) y rhannau hynny o asgwrn cefn anifeiliaid buchol sydd dros 30 mis oed pan gânt eu cigydda, sef y rhannau hynny sy'n ddeunydd risg penodedig; neu
- (b) llinyn asgwrn cefn defaid a geifr sydd dros 12 mis oed pan gânt eu cigydda neu y mae un neu fwy o'u dannedd blaen parhaol wedi torri drwy gig y dannedd,

os yw'r Asiantaeth wedi'i bodloni y cydymffurfir â darpariaethau Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned ac â'r Atodlen hon.

(2) Mae'r gweithdrefnau yn rheoliadau 10, 12, 13 a 14 yn gymwys, ond mae pob cyfeiriad at Weinidogion Cymru i'w ddehongli fel cyfeiriad at yr Asiantaeth.

Young lamb and goat stamps

11.-1) An inspector may stamp a sheep or goat in a slaughterhouse with a young lamb stamp or a young goat stamp if the animal does not have a permanent incisor erupted through the gum and the documentation, if any, relating to the animal does not indicate that it is aged over 12 months at slaughter.

(2) The stamp referred to in sub-paragraph (1) must mark the meat with a circular mark 5 centimetres in diameter with the following in capital letters 1 centimetre high-

- (a) "MHS"; and
- (b) in the case of a sheep, "YL"; or
- (c) in the case of a goat, "YG".

(3) It is an offence for any person other than an inspector to apply the stamp or a mark resembling the stamp, or to possess equipment for applying it.

(4) It is an offence to mark a sheep or goat with a stamp that is or resembles a young lamb stamp or a young goat stamp unless it is an animal permitted to be marked in accordance with sub-paragraph (1).

Removal of spinal cord from sheep and goats

12. It is an offence to remove the spinal cord or any part of it from a sheep or goat aged over 12 months at slaughter or that has one or more permanent incisors erupted through the gum (other than for the purposes of veterinary or scientific examination) except by-

- (a) longitudinally splitting the whole vertebral column; or
- (b) removing a longitudinal section of the whole vertebral column including the spinal cord.

Authorisation of cutting plants by the Food Standards Agency

13.-1) The Food Standards Agency must authorise a cutting plant to remove -

- (a) those parts of the vertebral column that are specified risk material from bovine animals aged over 30 months at slaughter; or
- (b) spinal cord from sheep and goats aged over 12 months at slaughter or which have a permanent incisor erupted through the gum,

if the Agency is satisfied that the provisions of Annex V to the amended Community TSE Regulation and this Schedule will be complied with.

(2) The procedures in regulations 10, 12, 13 and 14 apply, but all references to the Welsh Ministers are to be construed as references to the Agency.

Awdurdodi a chofrestru siopau cigyddion gan awdurdodau lleol

14.-(1) Rhaid i awdurdod lleol awdurdodi siop cigydd i dynnu'r rhannau hynny o asgwrn cefn anifeiliaid sy'n 30 mis oed neu'n iau pan gânt eu cigydd, sef y rhannau hynny sy'n ddeunydd risg penodedig, a rhaid iddo gofrestru'r siop at y diben hwnnw, os yw'r awdurdod wedi'i fodloni y cydymffurfir â darpariaethau Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned ac â'r Atodlen hon.

(2) Mae'r gweithdrefnau yn rheoliadau 10, 12, 13, a 14 yn gymwys, ond rhaid dehongli pob cyfeiriad at Weinidogion Cymru fel cyfeiriadau at yr awdurdod lleol dan sylw.

Tynnu deunydd risg penodedig ar safle torri a awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)

15. Bydd meddiannydd safle torri a awdurdodwyd o dan baragraff 13(1) yn tramgwyddo oni fydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cig gyrraedd y safle, a beth bynnag cyn i'r cig gael ei symud oddi ar y safle, yn tynnu o'r cig -

- (a) pob deunydd risg penodedig o fath y mae'r awdurdodiad yn ymwneud ag ef; a
- (b) os yw'r cig yn deillio o anifail buchol sy'n 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda, y rhannau hynny o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig.

Tynnu asgwrn cefn anifail buchol sy'n ddeunydd risg penodedig ar safle torri nas awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a)

16. Yn achos cig sy'n deillio o anifail buchol sy'n 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda ac na chafodd ei ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, bydd meddiannydd safle torri nas awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a) yn tramgwyddo oni fydd yn tynnu o'r cig y rhannau hynny o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a beth bynnag cyn i'r cig gael ei symud o'r fangre.

Tynnu asgwrn cefn anifail buchol sy'n ddeunydd risg penodedig mewn siop cigydd a awdurdodwyd ac a gofrestrwyd o dan baragraff 14

17. Yn achos cig sy'n deillio o anifail buchol sy'n 30 mis oed neu'n iau pan gaiff ei gigydda ac na chafodd ei ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, bydd meddiannydd siop cigydd a awdurdodwyd ac a gofrestrwyd o dan baragraff 14 yn tramgwyddo oni fydd yn tynnu o'r cig y rhannau hynny o'r asgwrn cefn sy'n ddeunydd risg penodedig cyn i'r cig gael ei symud o'r fangre.

Authorisation and registration of butcher shops by local authorities

14.-1) A local authority must authorise a butcher shop to remove those parts of the vertebral column that are specified risk material from bovine animals aged 30 months or less at slaughter and register the shop for that purpose, if the authority is satisfied that the provisions of Annex V to the amended Community TSE Regulation and this Schedule will be complied with.

(2) The procedures in regulations 10, 12, 13 and 14 apply, but all references to the Welsh Ministers are to be construed as references to the local authority concerned.

Removal of specified risk material at a cutting plant authorised under paragraph 13(1)

15. The occupier of a cutting plant authorised under paragraph 13(1) commits an offence unless, as soon as reasonably practicable after arrival at the plant of meat, and in any event before the meat is removed from the plant, he or she removes from the meat-

- (a) all specified risk material of a kind to which the authorisation relates; and
- (b) where the meat is derived from a bovine animal aged 30 months or less at slaughter, those parts of the vertebral column that are specified risk material.

Removal of bovine vertebral column that is specified risk material at a cutting plant not authorised under paragraph 13(1)(a)

16. In the case of meat derived from a bovine animal aged 30 months or less at slaughter that has not been brought into Wales from another member State, the occupier of a cutting plant which is not authorised under paragraph 13(1)(a) commits an offence unless he or she removes from the meat those parts of the vertebral column that are specified risk material as soon as reasonably practicable, and in any event before the meat is removed from the premises.

Removal of bovine vertebral column that is specified risk material at a butcher shop authorised and registered under paragraph 14

17. In the case of meat derived from a bovine animal aged 30 months or less at slaughter that has not been brought into Wales from another member State, the occupier of a butcher shop authorised and registered under paragraph 14 commits an offence unless he or she removes from the meat those parts of the vertebral column that are specified risk material before the meat is removed from the premises.

Cig o Aelod-wladwriaeth arall

18. At ddibenion pwynt 10.1 a phwynt 10.2 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned, os caiff cig sy'n cynnwys y rhannau hynny o asgwrn cefn anifail buchol, sef y rhannau hynny sy'n ddeunydd risg penodedig, ei ddwyn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall, rhaid i'r sawl sy'n ei fewnforio ei anfon ar ei union i safle torri a awdurdodwyd o dan baragraff 13(1)(a), ac mae methu gwneud hynny'n dramgwydd.

Staenio a gwaredu deunydd risg penodedig

19.-(1) Bydd meddiannydd unrhyw fangre lle y caiff deunydd risg penodedig ei dynnu sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 3 o Atodiad V i Reoliad Diwygiedig TSE y Gymuned (marcio a gwaredu) yn euog o dramgwydd.

(2) At ddibenion y pwynt hwnnw -

(a) mae staenio'n ymwneud â thrin y deunydd (p'un ai drwy ei drochi, ei chwistrellu neu daenu drwy ddull arall) gan ddefnyddio -

- (i) toddiant 0.5% yn ôl pwysau/cyfaint o'r asiant lliwio Patent Blue V (E131, 1971 Colour Index Rhif 42051(1)); neu
- (ii) y cyfryw asiant lliwio arall ag y gallo Gweinidogion Cymru neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd ei gymeradwyo'n ysgrifenedig; a

(b) rhaid taenu'r staen yn y fath fodd fel y bo'r lliwiad yn hollol weladwy ac yn parhau'n hollol weladwy -

- (i) dros y cyfan o'r wyneb a dorwyd a'r rhan fwyaf o'r pen yn achos pen dafad neu afr; a
- (ii) yn achos pob deunydd risg penodedig arall, dros wyneb cyfan y deunydd.

(3) Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys o ran unrhyw ddeunydd risg penodedig y bwriedir ei ddefnyddio yn ôl fel y darperir yn Erthygl 1(2)(b) ac (c) o Reoliad TSE y Gymuned.

Anifeiliaid Cynllun

20.-(1) Ar ôl i'r deunydd risg penodedig gael ei dynnu o anifail buchol a gafodd ei gigydda at ddibenion Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96, sydd yn mabwysiadu mesurau cynnal eithriadol ar gyfer y farchnad eidion yn y Deyrnas Unedig(2) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005(3) rhaid i'r gweddill (ac eithrio'r

(1) Cyhoeddir Colour Index gan The Society of Dyers and Colourists at Perkin House, 82 Grattan Road, Bradford, West Yorkshire BD1 2JB.

(2) OJ Rhif L 99, 20.4.1996, t.14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005 (OJ Rhif L 337, 22.12.2005, t.25).

(3) OJ Rhif L 337, 22.12.2005, t.25.

Meat from another member state

18. For the purposes of point 10.1 and point 10.2 of Annex V to the amended Community TSE Regulation, where meat containing those parts of the vertebral column of a bovine animal that are specified risk material is brought into Wales from another member State, the importer shall send it directly to a cutting plant authorised under paragraph 13(1)(a), and failure to do so is an offence.

Staining and disposal of specified risk material

19.-1) The occupier of any premises where specified risk material is removed who fails to comply with point 3 of Annex V to the amended Community TSE Regulation (marking and disposal) is guilty of an offence.

(2) For the purposes of that point-

(a) staining involves treating the material (whether by immersion, spraying or other application) with-

- (i) a 0.5% weight/volume solution of the colouring agent Patent Blue V (E131, 1971 Colour Index No 42051(1)), or
- (ii) such other colouring agent as may be approved in writing by the Welsh Ministers or the Food Standards Agency; and

(b) the stain must be applied in such a way that the colouring is and remains clearly visible-

- (i) over the whole of the cut surface and the majority of the head in the case of the head of a sheep or goat, and
- (ii) in the case of all other specified risk material, over the whole surface of the material.

(3) This paragraph does not apply in relation to any specified risk material which is destined for use as provided in Article 1(2)(b) and (c) of the Community TSE Regulation.

Scheme animals

20.-1) After the specified risk material has been removed from a bovine animal slaughtered for the purposes of Commission Regulation (EC) No. 716/96 adopting exceptional support measures for the beef market in the United Kingdom(2), as last amended by Commission Regulation (EC) No. 2109/2005(3), the remainder (excluding the hide) must immediately be

(1) Colour Index is published by the Society of Dyers and Colourists at Perkin House, 82 Grattan Road, Bradford, West Yorkshire BD1 2JB.

(2) OJ No. L 99, 20.4.1996, p.14, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 2109/2005 (OJ No. L 337, 22.12.2005, p.25).

(3) OJ No. L337, 22.12.2005, p.25.

croen) gael ei staenio ar unwaith yn unol â pharagraff 1 a hynny yn y fath fodd fel y bydd y lliwiad yn hollol weladwy ac yn parhau'n hollol weladwy dros wyneb cyfan y deunydd.

(2) Bydd methu cydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

Diogelwch deunydd risg penodedig

21.-(1) Hyd oni thraddodir neu y gwaredir y deunydd o'r fangre lle y'i tynnwyd, rhaid i feddiannydd y fangre sicrhau bod deunydd risg penodedig yn cael ei gadw'n ddigon ar wahân i unrhyw fwyd, bwydydd anifeiliaid neu gynnyrch cosmetig, fferyllol neu feddygol a'i gadw mewn cynhwysydd anhydraid ac iddo gaead a bod arno label yn nodi -

- (a) bod ynddo deunydd risg penodedig; neu
- (b) bod ynddo sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 1 a bod y geiriau "For disposal only" yn cael eu cynnwys ar y label.

(2) Rhaid iddo sicrhau bod y cynhwysydd yn cael ei olchi'n lân cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol bob tro y caiff ei wagu, a'i fod yn cael ei ddiheintio cyn cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

(3) Bydd methu cydymffurfio â'r paragraff hwn yn dramgwydd.

Gwaharddiad ar gyflenwi deunydd risg penodedig i'w fwyta gan bobl

22. Mae gwerthu neu gyflenwi'r canlynol yn dramgwydd -

- (a) unrhyw ddeunydd risg penodedig, neu unrhyw fwyd sy'n cynnwys deunydd risg penodedig a hwnnw'n ddeunydd neu'n fwyd i'w fwyta gan bobl; neu
- (b) unrhyw ddeunydd risg penodedig i'w ddefnyddio i baratoi unrhyw fwyd i'w fwyta gan bobl.

Diffiniadau deddfwriaeth y Gymuned

23. Yn yr Atodlen hon -

ystyr "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(1) a hynny fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006(2) ac

(1) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 wedi'i nodi bellach mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22).

(2) OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.1.

stained in accordance with paragraph 19 in such a way that the colouring is and remains clearly visible over the whole surface of the material.

(2) Failure to comply with this paragraph is an offence.

Security of specified risk material

21.-1) Pending consignment or disposal from the premises on which it was removed, the occupier of the premises must ensure that specified risk material is adequately separated from any food, feedingstuff or cosmetic, pharmaceutical or medical product and held in an impervious covered container that is labelled as either-

- (a) containing specified risk material; or
- (b) Category 1 animal by-products and including the words "For disposal only".

(2) He or she must ensure that the container is thoroughly washed as soon as reasonably practicable each time that it is emptied, and disinfected before use for any other purpose.

(3) Failure to comply with this paragraph is an offence.

Prohibition on the supply of specified risk material for human consumption

22. It is an offence to sell or supply-

- (a) any specified risk material, or any food containing specified risk material, for human consumption; or
- (b) any specified risk material for use in the preparation of any food for human consumption.

Definitions of Community legislation

23. In this Schedule -

"Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*") means Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(1) as last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006(2) and as read with Directive

(1) OJ No. L 139, 30.4.2004, p. 55. The revised text of Regulation (EC) No. 853/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.22).

(2) OJ No. L363, 20.12.2006, p.1.

fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(1), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005(2), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005(3) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005(4);

ystyr "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(5) a hynny fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 ac fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005(6) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005; ac

ystyr "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a ddefnyddir i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglyn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid yn cael ei wirhau(7) a hynny fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 ac fel y'i darllenir gyda Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 (fel y'i diwygiwyd yntau gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1664/2005) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2076/2005 (fel y'i diwygiwyd yntau gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1666/2005)".

2004/41/EC of the European Parliament and of the Council(1), Commission Regulation (EC) No. 1688/2005(2), Commission Regulation (EC) No. 2074/2005(3) and Commission Regulation (EC) No. 2076/2005(4);

"Regulation 854/2004" ("*Rheoliad 854/2004*") means Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(5) as last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006 and as read with Directive 2004/41/EC of the European Parliament and of the Council, Commission Regulation (EC) No. 2074/2005, Commission Regulation (EC) No. 2075/2005(6) and Commission Regulation (EC) No. 2076/2005; and

"Regulation 882/2004" ("*Rheoliad 882/2004*") means Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules(7) as last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006 and as read with Commission Regulation (EC) No. 2074/2005 (itself amended by Commission Regulation (EC) No. 1664/2005) and Commission Regulation (EC) No. 2076/2005 (itself amended by Commission Regulation (EC) No. 1666/2005)".

(1) OJ Rhif L157, 30.4.2004, t.33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC bellach wedi'i osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L195, 2.6.2004, t.12).

(2) OJ Rhif L271, 15.10.2005, t.17.

(3) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.27.

(4) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.83.

(5) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 206. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 wedi'i nodi bellach mewn Corrigendwm (OJ Rhif L 226, 25.6.2004, t. 83).

(6) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60.

(7) OJ Rhif L 165, 30.4.2004, t.1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 wedi'i nodi bellach mewn Corrigendwm (OJ Rhif L 191, 28.5.2004, t.1).

(1) OJ No. L157, 30.4.2004, p.33. The revised text of Directive 2004/41/EC is now set out in a Corrigendum (OJ No. L195, 2.6.2004, p.12).

(2) OJ No. L271, 15.10.2005, p.17.

(3) OJ No. L338, 22.12.2005, p.27.

(4) OJ No. L338, 22.12.2005, p.83.

(5) OJ No. L 139, 30.4.2004, p. 206. The revised text of Regulation (EC) No. 854/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L 226, 25.6.2004, p. 83).

(6) OJ No. L338, 22.12.2005, p.60.

(7) OJ No. L 165, 30.4.2004, p.1. The revised text of Regulation (EC) No. 882/2004 is now set out in Corrigendum (OJ No. L 191, 28.5.2004, p.1).

WELSH

○

£3.00

W115/08/07

ON